## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (191)
## Dydd Mercher, 15 Mawrth 2006

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

.....................................

**Eitem 1 -** Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Eitem 3** - Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, am ei chyfrifoldebau heblaw am fusnes

**Eitem 4** - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i'r Prif Weinidog

**Eitem 5** - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**Eitem 6** - Dadl am gynnig o dan Reol Sefydlog 31 a gyflwynwyd gan Huw Lewis

**Eitem 7** – Dadl am y Gymanwlad

**Eitem 8 -** Dadl fer - NDM2919 Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru): Sicrhau Cyfiawnder Cymdeithasol yn Ne Ddwyrain Cymru

.....................................

## Eitem 1 - Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

......................................

## Eitem 2 - Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

......................................

## Eitem 3 - Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, am ei chyfrifoldebau heblaw am fusnes

......................................

## Eitem 4 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i'r Prif Weinidog

### NDM2920 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Adran 104 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i Weinidogion portffolio ac i staff.

Dogfennau Ategol
Ceir copi o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn y cyswllt a ganlyn: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050016.htm

......................................

## Eitem 5 – Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

### NDM2921 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Chwefror 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.....................................

## Eitem 6 - Dadl am gynnig o dan Reol Sefydlog 31 a gyflwynwyd gan Huw Lewis

### NDM2837 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i fynnu bod meddygon teulu'n darparu adolygiad iechyd blynyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

*Isod, ceir datganiad o'r pwerau cyfreithiol a fyddai'n caniatáu gwneud y ddeddfwriaeth a gynigir, ynghyd ag amlinelliad o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill er mwyn helaethu ar y cynnig:*

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn datblygu is-ddeddfwriaeth ddrafft a wneir o dan adrannau 28R, 28S, 28V, 28W ac 126(4) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, ac adran 4(5) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, i ddiwygio rheoliad 2 (Dehongliad) ac Atodlen 2 (Gwasanaethau Ychwanegol) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 er mwyn cynnwys yn y gwasanaethau ychwanegol y gellir eu darparu dan Gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol adolygiad iechyd blynyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Bydd y ddeddfwriaeth hon yn golygu y gall plant sy'n derbyn gofal gael adolygiad iechyd blynyddol.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

Gan mai'r grwp mwyaf agored i niwed ymhlith plant sy'n derbyn gofal yw pobl ifanc sydd ar gychwyn eu harddegau, cynigir y byddai'r adolygiad blynyddol yn berthnasol yn y lle cyntaf i'r plant hynny rhwng 12 ac 16 oed sy'n derbyn gofal sydd:

a) yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol mewn lleoliad preswyl am dros 6 mis; a

b) nad ydynt fel arall yn derbyn gwasanaethau'r GIG.

c) dylid adolygu'r profiad hwn, ar ôl deuddeg mis, gyda'r bwriad o'i ymestyn i grwpiau eraill yn y boblogaeth sy'n derbyn gofal

Ar hyn o bryd mae oddeutu 150 o bobl ifanc yn perthyn i'r categori hwn a byddai archwiliad o'r fath yn costio oddeutu £100; £15,000 fyddai cost ychwanegol y diwygiad a gynigir i'r contract.

**Deunydd cefndir:**

Mae plant sy'n derbyn gofal yn arbennig o agored i niwed, o ganlyniad i'w profiadau blaenorol ac oherwydd eu bod yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth (gweler ymchwil gan Uned Ymchwil Gymdeithasol Dartington er enghraifft) yn dangos yn glir ei bod hi'n debygol bod ganddynt, fel grwp, fwy o anghenion, o ran gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol. Byddai tri phwrpas allweddol i archwiliad blynyddol:

- byddai'n sicrhau bod y cyswllt rhwng yr unigolyn a gofal sylfaenol yn cael ei gynnal yn iawn
- byddai'r cyswllt hwnnw yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai'r unigolyn yn derbyn y gwasanaethau angenrheidiol i ddelio ag unrhyw anhawster
- efallai yn anad dim, byddai hyn yn cael effaith *ataliol*, drwy geisio sicrhau bod cyngor ac arweiniad am faterion iechyd yn cael eu darparu'n gynnar yn ystod y glasoed a, thrwy gynnal y berthynas honno, yn darparu ffynhonnell o gymorth a allai atal rhai o'r anawsterau sy'n difetha bywydau pobl ifanc na chânt gefnogaeth teulu uniongyrchol.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth ar ôl ‘yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i’ a’i ddisodli â:

‘sicrhau bod pob plentyn sy’n derbyn gofal yn cael y gefnogaeth briodol i wella eu hiechyd a’u lles, a fydd yn cynnwys adolygiad iechyd blynyddol.  Dylid diwygio rheoliadau i gryfhau trefniadau awdurdodau lleol cyn lleoli plentyn, i sicrhau y cytunir ar y gwasanaethau cefnogi angenrheidiol megis iechyd ac addysg cyn lleoli’r plentyn. Yn ychwanegol, wrth leoli plentyn, dylai’r trefniadau newydd ystyried y pellter o gartref rhieni’r plentyn, er mwyn caniatáu (lle bo hynny’n briodol) i blant sy’n derbyn gofal gadw’r cyswllt gwerthfawr â’u teulu a’u cymunedau.”

Datganiad o Bwerau Cyfreithiol

Pwerau Sylfaenol – Adrannau 23, 26 ac Atodlenni 2 (rhan II) 4 (Rhan III), 5 (Rhan II) a 6 (Rhan II) Deddf Plant 1989 ac Adrannau 25 a 28 Deddf Plant 2004.

Rheoliadau – Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991; a Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991;

......................................

## Eitem 7 – Dadl am y Gymanwlad

**NDM2922**
**Jane Hutt (Bro Morgannwg)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu’r digwyddiadau a gynhelir gan y Cynulliad heddiw i ddathlu Diwrnod y Gymanwlad;

2. Yn diolch o galon i Senedd De Cymru Newydd am y rhodd ysblennydd o Fyrllysg;

3. Yn croesawu cyfraniad yr unigolion hynny o nifer o wledydd y Gymanwlad sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru, gan weithio mewn gwasanaethau hanfodol a chyfoethogi cymunedau lleol;

4. Yn ategu ymrwymiad y Cynulliad i egwyddorion masnachu rhydd a theg; a

5. Yn edrych ymlaen at ddatblygu’r cysylltiadau hyn ymhellach i’r dyfodol.

Neges oddi wrth Ei Mawrhydi Y Frenhines, Pennaeth y Gymanwlad

**......................................**

**Eitem 8 - Dadl fer - NDM2919 Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru): Sicrhau Cyfiawnder Cymdeithasol yn Ne Ddwyrain Cymru**

**......................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 21 Mawrth 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**